

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**  
**7 GORFFENNAF 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ar-lein ddydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2020.

**YN BRESENNOL:**

Y Cyngorwyr: Jean Davies, Ron Davies, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd, Ted Palmer, Kevin Rush, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cyngorydd Paul Johnson (ar ran Ray Hughes)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr: Sian Braun a Ian Dunbar

**CYFRANWYR:** Y Cyngorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Rheolwr Refeniw; Rheolwr Ariannol Strategol (Cyllid a Thai)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol.

**51. PENODI CADEIRYDD**

Eglurodd yr Hwylusydd nad oedd y Cyngorydd Ian Dunbar wedi gallu yn anffodus aros ar-lein yn y cyfarfod, a bod y Cyngorydd Ray Hughes, Is-Gadeirydd, wedi ymddiheuro am beidio â bod yn bresennol yn y cyfarfod, felly ceisiodd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cyngorydd Dennis Hutchinson yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**52. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Datganodd y Cyngorydd Ted Palmer gysylltiad personol i eitem 5 ar yr Rhaglen – Incwm Rhent Tai, fel tenant i'r Cyngor.

**53. COFNODION**

Gofynnodd y Cyngorydd Paul Shotton os byddai modd darparu dogfen Pwy 'di Pwy o'r Swyddogion Tai i'r Pwyllgor. Yn ogystal dywedodd bod diddordeb ar gyfryngau cymdeithasol o ran Aldi yn dod i Gei Connah a gofynnodd a fyddai modd darparu rhagor o wybodaeth. Dywedodd yr Hwylusydd y byddai'n dosbarthu'r ddogfen Pwy 'di Pwy i'r Pwyllgor pan fydd ar gael, a bydd yn gwneud cais am ymateb gan y Rheolwr Gwasanaeth – Menter ac Adfywio ar y posibilrwydd o Aldi yn dod i Gei Connah.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch yr adolygiad Llety Gwarchod, dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ei bod yn adolygiad eang gyda gwybodaeth ychwanegol a fydd yn cael ei rannu i'r Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin os oedd ymatebion wedi dod i law yn dilyn y camau gweithredu oedd heb eu gwneud o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ym mis Mawrth :-

- A oedd y Cabinet wedi gwneud penderfyniad ar gyllid ychwanegol ar gyfer adfywio canol tref, fel yr amlinellir yn yr adroddiad yr oedd y Pwyllgor wedi'i ystyried yng nghyfarfod mis Mawrth;
- Y wybodaeth ychwanegol ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd 7 tref ledled Gogledd Cymru yn manteisio o gael cysylltiad Wi-Fi am ddim;
- Bydd gwybodaeth ar bympiau gwres yr awyr yn cael ei ddsbarthu i'r Aelodau fel y gellir ei rannu gyda phreswylwyr yn eu newyddlenni.

Bydd yr Hwylusydd yn ymlid y camau gweithredu hyn a darparu'r wybodaeth berthnasol i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod.

Cynigiodd y Cynghorydd Dolphin bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac eiliodd y Cynghorydd Shotton hynny.

### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## **54. FFIOEDD GWRESOGI ARDALOEDD CYMUNEDOL 2020/21**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) y ffioedd gwresogi arfaethedig i eiddo'r Cyngor sydd â chynlluniau gwresogi cymunedol a fydd yn dod i rym o 31 Awst 2020.

Mae'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2020/21, wedi'u nodi yn yr adroddiad, yn aros am gymeradwyaeth gan y Cabinet. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r pris i denantiaid wedi gostwng ar gyfer 2020/21 sydd, fel mewn blynyddoedd eraill, yn caniatáu i Sir y Fflint adennill y costau disgwylidig o ffioedd gwresogi gan drosglwyddo'r manteision o gostau ynni is i denantiaid.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch pypiau gwres yr awyr a boeleri tân nwy, amlinellodd y Prif Swyddog y manteision o bympiau gwres yr awyr sydd yn tynnu aer i greu ffynhonnell o wres a ellir ei reoli'n annibynnol gan breswylwyr. Bydd boeleri nwy newydd yn cael eu gosod, mewn rhyw 15 – 20 mlynedd.

Cynigiodd y Cynghorydd Shotton bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion fel a amlinellwyd yn yr adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Rush.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y newidiadau i'r ffioedd gwresogi cyfredol yn adeiladau'r Cyngor sydd â systemau gwresogi cymunedol fel yr amlinellir yn Nhabl 1, paragraff 1.07 yr adroddiad yn cael eu nodi.

## **55. INCWM RHENT TAI**

Cyflwynodd y Rheolwr Refeniw y diweddariad gweithredol ar alldro diwedd blwyddyn 2019/20 ar gyfer casgliad rhent tai. Rhoddodd gyflwyniad a oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- Casglu Rhent: Alldro 2019/20;
- 19/20 – Achosion sy'n arwain at droi allan am beidio â thalu;
- Dadansoddiad o Ôl-Ddyledion Rhent drwy'r math o hawliad;
- Tenantiaid mewn Ôl-Ddyledion Rhent – Mawrth 2020; a
- Casglu Rhent: 20/21 Sefyllfa Ddiweddaraf (at wythnos 13)

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd tenantiaid ynghylch tenantiaid yn dod i ôl-daliad o ganlyniad i pandemig COVID-19, amlinellodd y Rheolwr Refeniw yr ymgysylltiad cynnar gyda thenantiaid i alluogi'r Cyngor gynorthwyo a chefnogi yn fuan iawn.

Gofynnodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin faint o denantiaid oedd wedi dod i ddyled oherwydd bod y Swyddfa yn Cysylltu wedi cau o ganlyniad i bandemig COVID-19, a pham nad oedd Swyddfa Treffynnon yn Cysylltu yn agor ar un pryd â rhai eraill yn Sir y Fflint. Roedd yn bryderus ynghylch hyn gan fod y swyddfa hon yn cyflenwi ardal ddaearyddol eang yn Sir y Fflint. Dywedodd y Rheolwr Refeniw bod heriau gyda thenantiaid a oedd yn dibynnu'n fawr ar daliadau arian parod, a nad oedd wedi gallu gwneud taliadau yn yr un modd. Roedd y Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â'r tenantiaid hynny, a lle bo'n bosibl, yn eu hannog i wneud trefniadau amgen, gyda thua 100 o denantiaid ychwanegol yn talu drwy ddebyd uniongyrchol bellach. Y cyngor a roddwyd i denantiaid pan roeddynt eisiau parhau i wneud taliadau arian parod, oedd i sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud, pan roedd yn ymarferol i wneud. Eglurodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) cyn ail-agor y Swyddfeydd yn Cysylltu, roedd rhaid cynnal asesiad risg ac roedd yn amau mai'r rheswm bod swyddfa Treffynnon yn agor yn hwyrach oedd oherwydd lefel y risg.

Rhoddodd y Cynghorydd Paul Shotton ar effaith gadarnhaol y fenter 'Gwario i Arbed' ond cododd bryderon ynghylch y cynllun Credyd Cynhwysol a'r arhosiad am bum wythnos ar gyfer talu derbynwyr. Hefyd soniodd am y taliad Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o £300k a oedd wedi'i dderbyn ar ôl y flwyddyn gyfrifyddu rhent wedi dod i ben, a gofynnodd os oedd hyn yn ddigwyddiad un-tro neu a oedd y taliad blynyddol gan DWP bob amser yn cyrraedd ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Eglurodd y Rheolwr Refeniw bod mwy o denantiaid wedi mudo i Gredyd Cynhwysol oherwydd pandemig COVID-19. Cafodd y tenantiaid hynny eu symud i daliadau a reolir, ond roedd yr amser am daliadau gan DWP yn cymryd amser, a gobeithir y bydd newid yn fuan yn hyd amser yr oedd DWP yn anfon y taliadau i'r Cyngor, gan fod hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Brian Lloyd ynghylch prif fannau lle mae ôl-ddyledion, eglurodd y Prif Swyddog na fyddai adnabod y prif fannau yn ddefnyddiol a bod ychydig o denantiaid ym mhob Cymuned sy'n gwrthod talu ac ymgysylltu â'r Cyngor.

Cododd y Cynghorydd Ron Davies bryderon ynghylch Credyd Cynhwysol a'r effaith negyddol mae hyn wedi'i gael ar denantiaid. Gofynnodd a fyddai modd gofyn i'r holl denantiaid drefnu taliadau drwy ddebydau uniongyrchol i'r Cyngor. Eglurodd y Rheolwr Refeniw bod y Cyngor yn annog tenantiaid i dalu drwy ddebyd uniongyrchol er mwyn eu cynorthwyo i reoli eu hincwm.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd Rush, amlinellodd y Rheolwr Refeniw y broses o ddelio â thenantiaid nad oedd yn dymuno ymgysylltu â'r Cyngor a lle'r oedd eu lefelau dyled yn parhau i gynyddu.

Dywedodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) ar faint o ymyrraeth gadarnhaol a oedd wedi'i wneud i gynorthwyo i leihau'r lefelau dyled cyn pandemig COVID-19. Soniodd y Cyngorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai am y gwelliannau sylweddol a oedd wedi cael eu gwneud a dywedodd y dylai sefyllfa gyfredol ar gyfer y tymor byr yn unig.

Cynigiodd y Cyngorydd Palmer bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Shotton.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am fod yn bresennol ac am ddarparu'r wybodaeth o fewn yr adroddiadau.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y gwelliannau mewn casgliadau rhent ar gyfer 2019/20 yn dangos bod y casgliad o rent wedi arwain at lefel uwch o gasgliad, lefel is o ddrwgddyledion ac alldro terfynol lle'r oedd cyfanswm ôl-ddyledion wedi lleihau £65k yn cael ei nodi.

Housing Rent Income presentation

### **56. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 am a daeth i ben am 12.06 pm)

.....  
**Y Cadeirydd**